

Addoli

Darlleniad 1: Salm 147: 1-13

Darlleniad 2: Ioan 4: 19-24

‘Mawl sy’n ddyledus i ti, O! Dduw, yn Seion.’

‘Dyfod y mae yr awr ac yn awr y mae hi, pan addolo’r gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd.’

O! Arglwydd ein Iôr, ni a ddymunwn roddi i ti yr anrhydedd a’r mawl sy’n ddyledus i’th enw sanctaidd.

O! Arglwydd ein Iôr, ni a ddymunwn roddi i ti addoliad ysbrydol ein calon, ac addoliad rhesymol ein meddwl. Oherwydd y gwir addolwyr yw’r rhai sy’n addoli’r Tad mewn ysbryd a gwirionedd. Dyna’r addolwyr yr wyt ti, O! Dad, yn eu ceisio.

Ond er ein hawydd i’th addoli di mewn modd sy’n deilwng o’th enw sanctaidd, gresynwn ein bod, oherwydd llesgedd ysbrydol, yn syrthio’n fyr yn fynych o’r nod aruchel hwn. Nid ydym yn rhoddi i ti yr addoliad a’r mawl yr wyt ti’n ei ddymuno ac yn ei haeddu ei gael gennym. Rhoddaist i ni fywyd, a gras ar ôl gras yng Nghrist Iesu ein Harglwydd, ac eto syrthiwn yn fyr o’th ogoniant yn ein haddoliad.

Maddau i ni, O! Dduw, am bob gwendid ynom sy’n peri bod ein haddoliad yn annheilwng ohonot ti. Ond erfyniwn ar i ti ein derbyn ni, a derbyn ein haddoliad amherffaith yn haeddiant ein Harglwydd a’n Gwaredwr Iesu Grist. Ac erfyniwn ar i ti hyrwyddo a bywhau ein hymdrechion i’th addoli drwy ddylanwad dy Lân Ysbryd yn ein calon.

A thrwy’r orig hon o addoliad deisyfwn ar iti ein bywiocáu yn ein hysbryd fel y byddwn yn dy wasanaethu di’n ffyddlonach yn ein bywyd beunyddiol, ac yn derbyn sêl newydd i anrhydeddu dy enw

ar y ddaear. Yn wir, dymunwn i ti ein tanio ni o'r newydd â than dy Lân Ysbryd. Boed inni brofi dy sêl di yn llosgi yn ein calon - sêl megis ein Harglwydd Iesu Grist yn glanhau y deml, yn pregethu'r newyddion da i'r tyrfaeodd, yn iacháu'r cleifion, ac yn rhoddi ei einioes yn bridwerth dros lawer.

Drwy ddylanwad dy Lân Ysbryd yn ein calon, dyro inni sêl i ogoneddu dy enw ym mhob peth a ddywedwn ac a gyflawnwn yn ein bywyd. Credwn mai prif ddiben ein bywyd yw gogoneddu dy enw a'th fwynhau byth ac yn dragywydd, a sylweddolwn mai drwy ddylanwad dy Lân Ysbryd yn unig y llwyddwn i gyflawni'r diben aruchel hwn.

Gorchymnaist dy bobl i'th addoli di ac i'th garu di â'u holl galon, ac â'u holl feddwl, ac â'u holl nerth. Boed i nerth dy Lân Ysbryd ynom ein galluogi i ufuddhau i'r gorchymyn hwn yn dy gysegr yr awr hon.

Credwn fod addoliad ysbrydol dy bobl yn boddhau dy galon, O! Dduw a dymunwn dy foddhau ym mhob ffordd drwy ein haddoliad. Dymunwn fawrygu dy enw sanctaidd. Dymunwn ddiolch i ti am ein bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol. Mawr a gogoneddus yw dy enw. Mawr a gogoneddus yw dy holl weithredoedd. Mawrygwn dy enw am yr hyn a gyflawnaist trwy fywyd, aberth, ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu. Trwyddo ef y gwelwn beth yw lled, hyd, uchder a dyfnder dy gariad di.

Boed inni brofi dy gariad o'r newydd yn ein calon heddiw. Yn wir, boed i'th gariad orlifo ynom fel y bydd inni gael ein hysbrydoli i rannu dy gariad yn ein cartrefleoedd ac yn ein cymdogaeth.

Pâr inni ganfod dy fod ti'n ein bendithio ni yn awr yng Nghrist Iesu, a thrwy dy Lân Ysbryd arwain ni ymhellach yn ein haddoliad, a sancteiddia fyfyrdodau ein calon, er gogoniant i'th enw. Amen.

Dewi Roberts